Saesneg isod/ English below

CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

**Cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth y 10fed o Fawrth 2026 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Elwyn Evans, Miriam Webb, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D Jones, Eleri Puw, Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc).

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Elwyn Evans.**
   Roedd ymddiheuriad gan Cyng Dylan Jarman.
   Nodwyd datganiad diddordeb Cyng Emrys Thompson a Cyng Elwyn Evans yn eitem 7c.
2. **Nodwyd fod cais am gyflwyniad gan aelod o'r cyhoedd sef Rachel Burgess o 8 Tan y Bryn, i drafod Stryd Tan y Bryn.**
   Estynnwyd groeso i Rachael, a rhoddod gyflwyniad ar broblem dwr ar y ffordd a oedd mewn perchnogaeth breifat, a bod trafferth cael gafael ar y perchennog. Roedd y broblem yn gwaethygu, a gwir berygl gweld dwr yn mynd i'r tai. Byddai costau sylweddol I gael sustem draenio. Roedd wedi cysylltu gyda nifer o gyrff, a hefyd Liz Saville Roberts AS. Roedd angen gwybod pwy fyddai yn fodlon cymryd trosodd y ffordd yma i ddatrys y broblem.

   Yn dilyn trafodoaeth, penderfynwyd cynnal cyfarfod ar **Nos Fawrth 12fed o Fai ar y safle am 4pm**. Byddai'r Clerc yn cysylltu gyda swyddfa'r Aelod Seneddol a Aelod Senedd Cymru, Cyngor Gwynedd, Dwr Cymru, CADW, Parc Cenedlaethol, a swyddogion y Safle Treftadaeth. Byddai yn adrodd yn ol I'r cyfarfod nesaf.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed o Chwefror 2026 a**r gynnig Cyng. Gwynedd Roberts a'i eilio gan Cyng emrys Thompson. (nodwyd un newid bach yn 4c, sef mai **ail** arwydd ydoedd, yn hytrach na **dwy** arwydd).

4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau**.

Nodwyd lythyrau diweddaraf Cyngor Gwynedd yng nghyswllt ymholiadau llwybrau/ffyrdd. Cadarnhawyd fod holl lwybrau a oedd yn gyfrifoldeb cynnal a chadw gan Jones & Jones wedi eu gwneud.

**b) Safle treftadaeth** / **Celf Cyhoeddus** –ystyriwyd y diweddaraf ynglyn a'r wagen lechi. Roedd yr holl wybodaeth wedi ei ddanfon i bawb. Cytunwyd i wahodd Lucy Thomas i gyfarfod y Cyngor Cymuned gyda Hannah Joyce, ynghyd a Gareth Jones o YGC ( ar zoom) ar Nos Fawrth y 14eg o Ebrill.

**c) Cynllun trafnidiaeth cymunedol** – nodwyd y diweddaraf,sef cyfarfod ar yr 2ail o Fawrth.

**d) Coeden yn Heol y Dwr –** byddai'r Clerc yn sicrhau cael yr amcangyfrifon erbyn mis Gorffennaf.

e) **Bwlch yn y wal rhwng Ty'n Ddol a hen bont Ty'n y Fach** – addawodd Cyng Robert Jones siarad gyda Sion Wilkes. Hefyd byddai yn cysylltu gyda CADW.

f) **Cais am drwydded eiddo** – Riverside Guest House – nodwyd y sylwadau pellach yn dilyn cyflwyno gwybodaeth i'r Gwasanaeth Trwyddedu. Roedd pryder yn parhau am lefydd parcio.

6. **Materion Cynllunio.**

Roedd ymgynghoriad **am Codi Mast ffon, Tir Tan Coed uchaf, Bryncrug** wedi ei ddanfon allan.

Roedd y Cynghorwyr yn gefnogol i'r cais.

7. **Materion Cyllid.**

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, sef Cyfri Cyfredol £3594.66 a Cyfri Cadw £14,077.96

Nodwyd fod llythyr ac adroddiad yr Archwilydd allanol i law ar gyfer blwyddyn arannol 2024-25, a chyfeiriwyd at y cynnwys.Roedd y cyfan wedi gwbwlhau. Diolchwyd i'r Clerc am ei waith. Roedd yr hysbyseb arferol a'r ffurflenni wedi eu roi ar y wefan, a byddai yn cael ei roi ar hybysfwrdd y pentref.

Cadarnhawyd benodiad Archwilydd mewnol ar gyfer 2025-26, sef uned Archwilio Cyngor Gwynedd.

b) **Anfonebau i'w talu**

Ar gynnig Cyng Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Robert D Jones, cytunwyd i dalu'r canlynol;

- **E W Owen a'i Chwmni** – gwaith PAYE/P60 - £252.00
- **Cyflog chwarter olaf y Clerc** £400.01 a HMRC £100. Hefyd costau am y flwyddyn o £500
- **Yswiriant y Cyngor 2026-27 - £377.86** - nodwyd y byddai hwn yn cael ei dalu yn y flwyddyn ariannol 2026-27. (byddai'r Clerc yn danfon y manylion oddiamgylch y Cynghorwyr fel bod pawb yn gweld manylion y polisi)
- **Un Llais Cymru – aelodaeth 2026-27 - £104**. (eto i flwyddyn ariannol 2026-27)

c) **Ceisiadau am arian –** ar gynnig Cyng Robert Jones a'i eilio gan Cyng Miriam Webb, cytunwyd ar y canlynol;

**Seindorf Arian Abergynolwyn - £150** (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Emrys Thopmpson a Elwyn Evans, a gadawsant yr ystafell.)

Ar gynnig Cyng Eleri Puw a'i eilio gan Cyng Miriam Webb, cytunwyd ar y canlynol;

**Clybiau Ffermwyr Ieuainc Meirionnydd - £150** (cafwyd darganiad diddordeb gan Cyng Robert D Jones a gadawodd yr ystafell)

**8.Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

Adroddodd Cyng Beth Lawton am ei gwaith o fewn y ward, a'r cwynion am faw cŵn. Roedd wedi ymdrin a hyn gyda Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd.

Adroddodd hefyd am y diweddaraf gyda Ysbyty Tywyn, a bod cyfarfod pellach ar yr 20fed o Fawrth.

**9..Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

Adroddwyd am gyfarfodydd – Pwyllgor Polisi ar y 27ain o Chwefror, a'r Pwyllgor Gwaith ar y 13eg o Fawrth.

Nodwyd hefyd manifesto Un Llais Cymru oedd wedi ei baratoi ar gyfer etholiadau'r Senedd.

10..**Gohebiaeth.**

a) **Materion mynwent Llanfihangel y Pennant** - Nid oedd ymateb pellach gan Paul Inman o'r Eglwys , (Cylch Bro Ystumanner) .

b) **Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru,** a'r cyrsiau oedd ar y gweill. Byddai'r Clerc yn dosbarthu

*c)* **Cynllun Datblygu Lleol Eryri** – nodwyd y wybodaeth yn galw am safleoedd posib. Roedd angen hysbysu'r ardal, a byddai poster yn cael ei roi yn yr hysbysfwrdd.

*d)* **Ras chwîd flynyddol** - 3ydd Mai – roedd cais gan Ann Stanton yn ol yr arfer i gael defnydd o'r Cae Chwarae. Nid oedd gwrthwynebiad, ond ar y dealltwriaeth na fyddai cwn yn cael eu caniatau yno.

*e)* **Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned Cyngor Gwynedd** – roedd gwybodaeth gan Alys Rees Jones am ail agor y gronfa am 2026 ar y 4ydd Mawrth, ac yn cau ar y 15fed o Fehefin. Roedd angen trafod syniadau yn y cyfarfod nesaf.

*f)* **Cefnogaeth i Reilffordd y Cambrian** – nodwyd e-bost i law, ac roedd y Cyngor yn gefnogol.

**11. Unrhyw fater arall.**

- Roedd angen blodau ychwanegol i'r potiau, a cytunwyd i hyn gael ei drefnu erbyn y tro nesaf.
- Roedd y ffordd heibio'r Ganolfan at y chwarel angen sylw Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN NOS FAWRTH 14eg Ebrill 2026, 7.00y.h.**

**..........................................................................................................................**

**Minutes of a Council Meeting held on Tuesday 10 March 2026 at 7:00pm at the Ganolfan, Abergynolwyn**

**Present:**
Cllr. Elwyn Evans, Miriam Webb, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D Jones, Eleri Puw, Cllr. Beth Lawton (Gwynedd Council) and Huw T Jones (Clerk).

---

## 1. Welcome

The Chair, Elwyn Evans, extended a warm welcome to everyone.
Apologies were received from Cllr. Dylan Jarman.

Declarations of interest were noted from Cllr. Emrys Thompson and Cllr. Elwyn Evans in item 7c.

---

## 2. Presentation from a member of the public

It was noted that a request had been received for a presentation from a member of the public, Rachel Burgess of 8 Tan y Bryn, to discuss Tan y Bryn Street.

Rachel was welcomed and gave a presentation about a water problem on the road, which is privately owned, and the difficulty in contacting the owner.

The problem was worsening and there was a real risk of water entering nearby houses. There would be significant costs involved in installing a drainage system. She had contacted several organisations as well as MP Liz Saville Roberts. It was necessary to establish who would be willing to take over the road in order to resolve the issue.

Following discussion, it was agreed to hold a meeting on site on Tuesday 12 May at 4:00pm. The Clerk would contact the offices of the Member of Parliament and the Member of the Senedd, Gwynedd Council, Welsh Water, CADW, the National Park, and Heritage Site officers. The Clerk would report back at the next meeting.

---

## 3. Minutes of the previous meeting

The minutes of the meeting held on 10 February 2026 were confirmed on the proposal of Cllr. Gwynedd Roberts and seconded by Cllr. Emrys Thompson.
One small amendment was noted in 4c: it referred to a **second sign**, rather than **two signs**.

---

## 4. Matters arising

### a) Highways/paths
The latest letters from Gwynedd Council regarding footpath/road enquiries were noted. It was confirmed that all paths maintained by Jones & Jones had been completed.

### b) Heritage site / Public Art
The latest update regarding the slate wagon was considered. All information had been circulated. It was agreed to invite Lucy Thomas to a Community Council meeting with Hannah Joyce and Gareth Jones from YGC (via Zoom) on Tuesday 14 April.

**c) Community transport scheme**
The latest update was noted, including a meeting held on 2 March.

**d) Tree on Heol y Dŵr**
The Clerk would ensure estimates were obtained by July.

**e) Gap in the wall between Ty'n Ddol and the old Ty'n y Fach bridge**
Cllr. Robert Jones promised to speak with Sion Wilkes. He would also contact CADW.

**f) Premises licence application – Riverside Guest House**
Further comments following the submission of information to the Licensing Service were noted. Concerns remained about parking spaces.

---

## 6. Planning matters

Consultation regarding the erection of a telecommunications mast at Tir Tan Coed Uchaf, Bryncrug had been circulated.

Councillors were supportive of the application.

---

## 7. Finance

**a) Account balances**
The balances were noted:

- Current Account: £3,594.66
- Savings Account: £14,077.96

It was noted that the external auditor's letter and report for the financial year 2024–25 had been received and its contents were referred to. The process had been completed. The Clerk was thanked for his work.

The usual notice and forms had been placed on the website and would also be placed on the village noticeboard.

The appointment of the internal auditor for 2025–26 was confirmed as the Gwynedd Council Audit Unit.

**b) Invoices to be paid**
Proposed by Cllr. Emrys Thompson and seconded by Cllr. Robert D Jones, it was agreed to pay:

- E W Owen & Co – PAYE/P60 work – £252.00
- Clerk's final quarterly salary – £400.01 and HMRC – £100
- Annual expenses – £500
- Council insurance 2026–27 – £377.86 (to be paid in the 2026–27 financial year). The Clerk would circulate the policy details to councillors.
- One Voice Wales membership 2026–27 – £104 (also for the 2026–27 financial year)

**c) Grant applications**
Proposed by Cllr. Robert Jones and seconded by Cllr. Miriam Webb, the following was agreed:

- Abergynolwyn Silver Band – £150
  (Cllr. Emrys Thompson and Elwyn Evans declared an interest and left the room.)

Proposed by Cllr. Eleri Puw and seconded by Cllr. Miriam Webb:

- Meirionnydd Young Farmers Clubs – £150
  (Cllr. Robert D Jones declared an interest and left the room.)

---

## 8. Report from Cllr. Beth Lawton (Gwynedd Council)

Cllr. Beth Lawton reported on her work within the ward, including complaints about dog fouling. She had dealt with this with Gwynedd Council's Environment Department.

She also reported on the latest developments regarding Tywyn Hospital, with a further meeting scheduled for 20 March.

---

## 9. Report from Cllr. Elwyn Evans (One Voice Wales representative)

Meetings were reported as follows:

- Policy Committee – 27 February
- Executive Committee – 13 March

The One Voice Wales manifesto prepared for the Senedd elections was also noted.

---

## 10. Correspondence

**a)** Llanfihangel y Pennant cemetery matters – No further response had been received from Paul Inman of the Church (Bro Ystumanner Ministry Area).

**b)** One Voice Wales training sessions and forthcoming courses were noted. The Clerk would circulate details.

**c)** Eryri Local Development Plan – Information requesting possible sites was noted. The area needed to be informed, and a poster would be placed on the noticeboard.

**d)** Annual dog race – 3 May – A request from Ann Stanton to use the playing field as usual was noted. There was no objection, on the understanding that dogs would not be allowed on the field.

**e)** Gwynedd Council Community Councils Support Fund – Information from Alys Rees Jones regarding the reopening of the fund on 4 March 2026 and closing on 15 June was noted. Ideas would need to be discussed at the next meeting.

**f)** Support for the Cambrian Railway – An email had been received and the Council was supportive.

---

## 11. Any other business

- Additional flowers were needed for the planters, and it was agreed to arrange this before the next meeting.
- The road past the Centre towards the quarry required attention from Gwynedd Council's Highways Department.

---

**Date of next meeting:**
The Ganolfan, Abergynolwyn – Tuesday 14 April 2026 at 7:00pm.